# Cyngor Datblygu'r Economi

**Crynodeb**
Darparu Diweddariad ar Gyflogaeth a Sgiliau gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) ers ei adnewyddu.

## Cefndir

1. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf cyfansoddiad newydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) ddydd Iau 25 Mai 2017. Caiff ei arwain gan gyflogwyr ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth gref o gyflogwyr o boith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyrff cynrychioli cyflogwyr (CBI a'r Ffederasiwn Busnesau Bach. Mae'r bwrdd newydd hefyd yn tynnu ynghyd randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r rhwydwaith darparwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Addysg Uwch, Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith, Gyrfa Cymru a Chymwysterau Cymru i ddarparu mewnbwn strategol a her gadarn i lywio sgiliau, prentisiaethau, addysg bellach, addysg uwch a pholisi dysgu gydol oes yn y dyfodol.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dialog agos ac adeiladol â chyflogwyr a phartneriaeth wirioneddol rhwng y Llywodraeth, cyflogwyr a darparwyr addysg i sicrhau ymrwymiad cyfrannol i fuddsoddi mewn sgiliau - hwn yw nod allweddol WESB. Cyflwynwyd strwythur llywodraethu newydd sy'n galluogi WESB i adrodd yn uniongyrchol i Gyngor Datblygu'r Economi ar faterion cyflogaeth a sgiliau, ac mae Cadeirydd WESB yn aelod ffurfiol o'r Cyngor. Bydd y trefniant gweithio newydd hwn yn rhoi golwg strategol gwell ar sgiliau i Lywodraeth Cymru ac yn cryfhau cysylltiadau â busnes, menter gymdeithasol ac undebau llafur i ddylanwadu ar bolisi mewn nifer o feysydd sy'n berthnasol i sgiliau a'r economi ehangach.

3. Canolbwyntiodd cyfarfod cyntaf WESB ar dri maes polisi allweddol - diweddariad i'r Polisi Sgiliau (gyda phwyslais ar gyflwyno sgiliau yn rhanbarthol), Cyflogadwyedd (gan gynnwys sut i ymgysylltu â chyflogwyr wrth lunio'r rhaglen waith) a Phrentisiaethau (swyddogaeth WESB wrth lywio polisi Prentisiaeth o safbwynt cyflogwyr).

## Polisi Sgiliau

4. Mae'r cyfeiriad a bennir gan y Datganiad Polisi ar Sgiliau (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014) yn parhau'n ddilys o ystyried yr heriau hirdymor i Gymru o ran cynyddu lefelau sgiliau cyffredinol, cynnwys rhagor o gyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant, gwella llwybrau i addysg uwch a chefnogi pobl i gael cyflogaeth â thâl gwell. Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i gyhoeddi strategaeth sgiliau wedi'i diweddaru o ystyried y strategaethau trawsbynciol sydd ar y gweill a'r manylion a gyhoeddwyd trwy'r Rhaglen Lywodraethu.

# Cyngor Datblygu'r Economi

5. Bydd y blaenoriaethau ar gyfer y portffolio sgiliau yn canolbwyntio ar dri maes:

- Creu lleiafrif o 100,000 o gyfleoedd prentisiaeth i gefnogi unigolion a helpu cyflogwyr i dyfu eu busnes
- Cefnogi pobl sy'n chwilio am y sgiliau cyflogadwyedd angenrheidiol i gael swyddi o safon
- Hyrwyddo, annog a galluogi arloesi a chysylltedd, ein prif ysgogiadau ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, ym mhob rhan o'r economi.

6. Yn ei gyfarfod cyntaf, cytunodd WESB nad yw'r angen i herio cyflogwyr ar faterion sy'n ymwneud â sgiliau erioed yn fwy. Trafodiadau gadael yr UE fydd y pwyslais ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ac mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ymateb i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Ddiwydiannol y DU, a lansiwyd ym mis Ionawr 2017, yn rhan o broses strategol ehangach o adnewyddu sectorau blaenoriaeth. Mae penderfyniadau ar brosiectau seilwaith gweddnewidiol arfaethedig, sef y mwyaf a welwyd yn yr oes ddiweddar, hefyd yn yr arfaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Metro De Cymru, Wylfa Newydd a Morlyn Llanw Bae Abertawe.

7. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rhan allweddol mewn casglu gwybodaeth ranbarthol wedi'i llywio gan gyflogwyr. O ganlyniad i hyn, maent wedi datblygu strategaethau cadarn i ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn nodi anghenion sgiliau y rhanbarth, ac, yn benodol, yr anghenion sgiliau sy'n ymwneud â phrosiectau seilwaith rhanbarthol a sectorau blaenoriaeth.

8. Mae tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol:
   - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru
   - Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru
   - Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De-ddwyrain Cymru

9. Mae pob partneriaeth sgiliau ranbarthol yn llunio cynllun cyflogaeth a sgiliau blynyddol, ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer eu rhanbarth ar sail angen cyflogwyr. Mae cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol yn nodi sectorau economaidd allweddol ac maent yn llywio penderfyniadau cynllunio ar gyfer darparwyr ac yn darparu tystiolaeth hollbwysig yn sail i benderfyniadau buddsoddi mewn sgiliau.

**Cyflogadwyedd**

10. Mae Symud Cymru Ymlaen yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i 'ail-lunio cymorth cyflogadwyedd ar gyfer unigolion sy'n barod i gael swyddi, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, er mwyn iddynt gael y sgiliau a'r profiad i ennill a chadw swyddi cynaliadwy'. Canolbwyntiodd y

# Cyngor Datblygu'r Economi

drafodaeth yn WESB ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i ail-lunio rhaglenni cyflogadwyedd presennol er mwyn i'n cynnig ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn, ymateb i'r farchnad lafur newidiol, ac, yn bwysig iawn, gael ei lywio gan ymgysylltiad a chyfranogiad gweithredol cyflogwyr yn y maes.

11. Trafododd WESB ffyrdd o dargedu unigolion sydd â hanes o gyflogaeth ansicr i gefnogi canlyniadau cyflogaeth mwy cynaliadwy, a chafwyd dialog adeiladol hefyd ar sut i gynnwys cyflogwyr yn y broses o gynyddu lefelau sgiliau a rhagolygon cyflogaeth eu staff.

12. Croesawodd yr aelodau fwriad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ardal y Cymoedd i dreialu'r rhaglenni ail-lunio er mwyn cynyddu eu heffaith yn y maes, er enghraifft ehangu cwmpas rhaglenni presennol i dargedu'r rhai sy'n ddi-waith yn y tymor byr er mwyn archwilio a yw hyn yn cael effaith, yn benodol mewn cymunedau difreintiedig allweddol. Croesawodd y Bwrdd y nod allweddol o weithio'n fwy effeithiol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac â'r rhai sy'n cyflawni yn y maes er mwyn ehangu cyfleoedd cyflogaeth ac ysgogi gwell canlyniadau. Yn y dyfodol, bydd cyfle gan WESB i herio a chraffu ar unrhyw ganfyddiadau cynnar o'r gwaith hwn, gan gynnwys rhaglenni treialu Swyddi Gwell yn Nes at Adref.

13. Amlygwyd bod y Gweinidog dros Sgiliau a Gwyddoniaeth yn bwriadu gwneud Datganiad ar Gyflogadwyedd ar 11 Gorffennaf, a fyddai'n nodi'r drefn lywodraethu ar gyfer Llywodraeth Cymru gyfan y mae ei hangen i gyflawni agenda Cyflogadwyedd gadarn, cynlluniau i'w cyflawni ar unwaith i ail-lunio'r cynnig cyflogadwyedd, a sut y byddem yn profi'r dull hwn yn benodol yn ardal y Cymoedd.

## Prentisiaethau

14. Mae ein Polisi Sgiliau Prentisiaeth, a'i gynllun gweithredu pum mlynedd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017, yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â Phrentisiaethau yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad i ddarparu 100,000 o leoliadau prentisiaeth o safon yn ystod y pum mlynedd nesaf yn sylfaen i uchelgais i greu gwlad fwy ffyniannus ac uchelgeisiol, decach a chydnerth. Mae sgiliau yn ysgogiad allweddol i gynhyrchiant, ac mae prentisiaethau yn chwarae rhan bwysig wrth ddatgloi ein potensial twf Gwerth Ychwanegol Gros. Ein dull gweithredu yw ymestyn a chryfhau llwybrau prentisiaeth mewn pynciau STEM, a mynd i'r afael â'r diffyg sgiliau trwy ddatblygu prentisiaethau mewn sectorau twf a datblygol.

15. Nododd WESB fod Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei hymgysylltiad â chyflogwyr, a bod y rhwydwaith darparwyr prentisiaeth cymeradwy yn datblygu cysylltiadau â mwy na 35,000 o gyflogwyr, gan gydnabod natur amrywiol y cyflogwyr sy'n gweithredu yng Nghymru. Ar yr un

# Cyngor Datblygu'r Economi

pryd, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn darparu arwydd clir o alw, cyflenwad a defnydd o sgiliau sector yn eu rhanbarthau perthnasol, wedi'u cefnogi gan gyflogwyr ym mhob un o'r rhanbarthau.

16. Mae'r ymgysylltiad hwn gan gyflogwyr â phrentisiaethau yng Nghymru wedi dwysau ers i Lywodraeth y DU gyflwyno'r Ardoll Brentisiaeth, ardoll cyflogaeth i gyflogwyr ledled y DU. Mae cyflogwyr nad ydynt wedi cymryd rhan mewn prentisiaethau o'r blaen yn chwilio am ffyrdd o adennill eu cyfraniadau Ardoll. Roedd aelodau WESB yn awyddus i sicrhau nad yw'r system wedi'i hysgogi dim ond gan y cyflogwyr mwy hynny sy'n talu'r ardoll. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch sut yr ydym yn cysylltu cyflogwyr llai â'r rhai mwy trwy gadwyni cyflenwi i ysgogi gwell canlyniadau.

17. Cytunodd yr aelodau bod WESB yn chwarae rhan allweddol mewn monitro cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu Prentisiaeth, sy'n amlinellu ein blaenoriaethau cyflawni ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022. Gellir crynhoi'r camau fel:

    - Mynd i'r afael â diffygion sgiliau difrifol
    - Cynnal dull effeithiol i bob oedran
    - Canolbwyntio ar swyddi a thwf
    - Gwella ansawdd a meincnodi
    - Gwella mynediad, cydraddoldeb a thegwch cyfleoedd
    - Cyflawni prentisiaethau yng Nghymru
    - Datblygu llwybrau sgiliau
    - Sefydlu system newydd o adolygu a datblygu'r fframwaith - i sicrhau bod prentisiaethau wedi'u llunio i ddiwallu anghenion cyflogwr a'u bod yn ymateb i newidiadau yn y diwydiant.

18. Roedd WESB yn awyddus i gyflogwyr fod wrth wraidd y cynnig cwricwlwm yng Nghymru er mwyn sicrhau bod prentisiaethau wedi'u llunio i ddiwallu anghenion cyflogwyr a'u bod yn ymateb i newidiadau yn y diwydiant. Roedd aelodau hefyd yn awyddus i ystyried y dull a ddefnyddir yn Lloegr a'i haddasrwydd i Gymru.

19. Cytunodd WESB i sefydlu a goruchwylio Bwrdd Ymgynghori ar Brentisiaethau o gyflogwyr er mwyn sicrhau bod datblygiad Fframweithiau Prentisiaethau yn diwallu anghenion cyflogwyr yng Nghymru ac economi Cymru. Bydd y Bwrdd Ymgynghori hwn yn adrodd yn uniongyrchol i WESB ac yn ystyried saernïaeth Fframweithiau Prentisiaeth yn ogystal â chytuno ar ba fframweithiau y dylid eu datblygu flwyddyn nesaf i Gymru.

# Cyngor Datblygu'r Economi

20. Cynhelir cyfarfod nesaf WESB ddydd Iau 28 Medi 2017.

**Argymhelliad**
Bod aelodau'r Cyngor yn nodi ac yn rhoi sylwadau ar y diweddariad ar Gyflogaeth a Sgiliau gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ers ei adnewyddu.